

Y Llyfr Lledrith gan Cetra Coverdale Pearson

(Yn seiliedig ar “Geiriau Diflanedig” gan Robert Macfarlane, Jackie Morris a Mererid Hopwood.)

Oesoedd yn ôl mi gawsom ein swyno gan y llyfr, y llyfr llawn swynion.

Ar ddiwrnod mor dawel, ymestynnais am y llyfr a’i roi ar fy nghol. Llyfr mawr, trwm â chlawr caled oedd o, fel dylai pob llyfr lledrith bod. Nid oedd yr arwyddion o draul yn ei ddifetha. Arwyddion bywyd wedi’i fyw’n dda oedden nhw, fel y crychau ar groen fy nwylo.

Dechreuais droi’r tudalennau’n araf fel oeddwn yn arfer wneud. Roedd pethau ar goll ar rai tudalennau. Roedd rhyw wacter yno oedd yn adleisio rhywbeth oedd wedi bod. Dechreuodd y llythrennau ddawnsio ar draws y tudalen. Daeth yr hen gyffro yn ôl pan ymddangosodd yr enw cudd. Troais y tudalen nesa i weld y llun anhygoel o beth oedd ar goll a darllenais y swyn a ddaeth ag ef yn ôl yn fyw.

A deimlais awel y tudalennau’n troi ar fy moch, ai adenydd pluog ydoedd?

A glywais bitrwm patrwm glaw ar y ffenest, ai pawennau bach ar y llawr?

A welais rywbeth coch yn sleifio tu ôl i’r cwprdd, ai tric y golau ydoedd?

Oedd yna lygaid bach du yn sythu arnaf i o’r gongl?

Roedden ni wedi rhannu'r profiad hwn llawer o weithiau nes ein bod wedi galw popeth yn y llyfr yn ôl. Llenwyd gwacter fy enaid gan yr atgofion melys.

Ond cyn bo hir roeddwn yn syllu ar y tudalen olaf wag.

Dechreuais greu llun fy hun. Llun o fam ifanc yn eistedd mewn cadair freichiau, cyfrol fawr ar ei chol a lle gwag o dan ei chesail. Gwelais y llythrennau’n bownsio a rhedeg ar draws y dudalen. Ymddangosodd enw ymysg y llythrennau aur. Bu bron i mi allu teimlo gwallt ei ben yn cosi fy ngên a chlywed ei lais...

‘Beth ydy’r gair hwn, Mam?’

‘Gwenci’

‘A hwnna?’

‘Diflanedig. Yr ystyr ydy...’

‘Ia, dwi’n gwybod, fel “diflannu”. Ond dydy’r pethau dan ni’n caru byth yn diflannu, ydyn nhw Mam?’

‘Tra bo ni’n cadw eu henwau yn fyw yn ein cof ac ein calonnau fyddan nhw byth, byth yn diflannu, fy machgen i.’

Torrwyd fy myfyrdod gan sŵn y glicied a gwichian y drws yn agor. Sain esgidiau trwm dyn ar y llechen.

“Haia, Mam! Fy sy ‘ma!”

Plygodd y dyn i’ m cusanu. ‘O! Dw i’n cofio’r hen lyfr hwn! Ydy’r swynion dal yn gweithio?’ gofynnodd gyda gwên annwyl.

“Ydy, maen nhw”. Doeddwn i ddim yn disgwyl ei weld heddiw.